Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Prendergast

Stokes Avenue
Prendergast
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 2RB

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Prendergast

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymunedol Prendergast |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 446 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 344 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 61 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 13.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 6.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 13.1% |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/06/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/03/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymunedol Prendergast yn ysgol gymunedol gynhwysol a chefnogol a chanddi ddiwylliant diogelu cryf. Mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi ac yn gallu dylanwadu ar fywyd yr ysgol trwy eu grwpiau arweinyddiaeth disgyblion. Mae ymddygiad da disgyblion yn cyfrannu at amgylchedd dysgu digynnwrf.

Mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn meithrin ymgysylltiad brwdfrydig disgyblion mewn dysgu. Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi, gwaith grŵp ac adborth effeithiol sy'n helpu disgyblion i ddeall eu camau nesaf. Mae staff yn defnyddio asesu'n dda i fonitro cynnydd, gyda chefnogaeth hynod gryf ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), y rhai o aelwydydd incwm isel a theuluoedd y lluoedd arfog.

Mae staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni yn helpu llunio cwricwlwm yr ysgol, ac mae hyn yn golygu ei fod yn adlewyrchu'r gymuned leol a'r byd ehangach yn dda. Mae profiadau gwerthfawr yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn hyrwyddo hunaniaeth a pherthyn yn dda. Yn aml, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu dychmygus ar gyfer disgyblion, ond weithiau mae gormod o opsiynau i ddisgyblion ddewis o'u plith. O bryd i'w gilydd, nid yw dysgu yn diwallu anghenion disgyblion yn ddigon agos. Mae amgylcheddau dysgu'r ysgol, yn cynnwys ystod o ardaloedd diddorol yn yr awyr agored, yn tanio chwilfrydedd disgyblion ac yn cynnal eu diddordeb yn dda.

Mae disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn Saesneg ac yn datblygu medrau da wrth siarad Cymraeg. Mae addysgu darllen yn systematig yn datblygu disgyblion i fod yn ddarllenwyr rhugl. Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol, er bod arweinwyr yr ysgol yn cydnabod bod angen mwy o gysondeb mewn cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig. Mae addysgu mathemateg yn adeiladu dealltwriaeth disgyblion o rif a rhesymu yn dda, gyda chyfleoedd cynyddol i ddisgyblion gymhwyso medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn cynnal ffocws cryf ar les a chynnydd disgyblion. Mae prosesau monitro a gwerthuso yn gadarn, ac mae dysgu proffesiynol yn cefnogi gwelliannau mewn addysgu a chynllunio'r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid grant yn effeithiol i leihau effaith tlodi. Mae perthnasoedd cryf â rhieni a phartneriaethau ag ysgolion eraill yn ehangu'r ddarpariaeth ac yn helpu lleihau annhegwch.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Mireinio'r defnydd o weithgareddau dysgu annibynnol fel bod disgyblion yn ennill dealltwriaeth well o'u dysgu ac yn cwblhau gwaith o ansawdd cyson uchel.

A2 Parhau i gryfhau addysgu i sicrhau bod profiadau dysgu a dulliau addysgu yn diwallu anghenion pob un o'r disgyblion.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gymunedol Prendergast yn gymuned groesawgar a chynhwysol lle rhoddir blaenoriaeth uchel i gynnal diwylliant diogelu cryf. Mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd bod staff yn eu trin yn barchus, yn cymryd eu pryderon o ddifri ac yn delio â materion yn deg. Mae disgyblion yn falch eu bod yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol trwy eu hymglymiad mewn ystod eang o grwpiau arweinyddiaeth disgyblion. Mae'r grwpiau hyn yn helpu pob un o'r disgyblion i feithrin medrau arwain a dealltwriaeth gref o'u rolau yn ddinasyddion yn yr ardal leol a'r byd ehangach. At ei gilydd, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae hyn yn helpu creu amgylchedd digynnwrf lle gall pawb ddysgu. Mae strategaethau effeithiol i annog presenoldeb da wedi arwain at gynnydd sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys gwelliannau yng nghyfradd yr absenoldebau parhaus, sef maes sy'n her o hyd.

Mae perthnasoedd gwaith rhwng disgyblion a staff yn gryf. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gydweithio'n effeithiol ac ymateb yn frwdfrydig i ddysgu. Mae llawer o athrawon a chynorthwywyr addysgu yn defnyddio holi, sgwrsio â phartneriaid ac addysgu mewn grwpiau bach yn dda i atgyfnerthu dysgu blaenorol ac ymestyn meddwl disgyblion. Mae adborth defnyddiol athrawon yn helpu disgyblion i wella'u gwaith a deall eu camau nesaf. Mae staff yn cynyddu'n raddol y cyfleoedd i ddisgyblion ystyried yn fanylach sut gallant fireinio'u gwaith.

Mae arweinwyr a staff yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus. Maent yn defnyddio gwybodaeth asesu yn bwrpasol i nodi cryfderau disgyblion a'u meysydd i'w datblygu. Mae cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY, y rhai o aelwydydd incwm isel, a disgyblion o deuluoedd y lluoedd arfog, yn gryfder. Mae staff yn monitro'u cynnydd yn agos ac yn cydweithio o fewn yr ysgol a gydag asiantaethau allanol i gynnig ystod o ymyriadau effeithiol.

Mae staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr wedi cydweithio'n effeithiol i lunio cwricwlwm yr ysgol, sydd wedi'i wreiddio yn hanes a diwylliant yr ardal leol ac yn adlewyrchu ei chymuned yn dda. Mae Pasbort Prendergast, sef set o brofiadau pwysig sy'n cryfhau ymdeimlad disgyblion o hunaniaeth a pherthyn, yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn dda. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad dealltwriaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae'n hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o grefydd, diwylliant a safbwyntiau byd, ochr yn ochr â dealltwriaeth gadarn o gyfleoedd a heriau'r byd modern, yn cynnwys defnydd diogel o gyfryngau cymdeithasol. Mae arweinwyr a staff yn myfyrio'n bwrpasol ar lwyddiant y cwricwlwm, ac mae hyn yn eu helpu i'w fireinio a'i gryfhau yn brydlon, pan fydd angen.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dychmygus a diddorol ar gyfer dysgu annibynnol ar draws pob maes dysgu. Mewn llawer o achosion, mae'r tasgau hyn yn cymell disgyblion yn dda, er bod gormod i ddisgyblion ddewis o'u plith, weithiau. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i staff sicrhau bod disgyblion yn cynhyrchu gwaith o ansawdd cyson uchel. Ar rai adegau, mae athrawon yn cynllunio dysgu nad yw'n diwallu anghenion disgyblion; mae'n rhy anodd neu'n rhy hawdd. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn ei chael yn anodd deall beth i'w wneud neu'n mynd yn rhwystredig oherwydd eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu herio.

Mae staff wedi rhoi cryn dipyn o ystyriaeth ac ymdrech i greu amgylcheddau dysgu cyffrous mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r defnydd effeithiol o ystod gyffrous o ardaloedd dysgu yn yr awyr agored yn gryfder arbennig sy'n tanio chwilfrydedd disgyblion ac yn eu hannog i ymchwilio i'w hamgylchoedd a'u hadnoddau. Mae'n galluogi pob un o'r disgyblion i atgyfnerthu eu medrau'n bwrpasol mewn amgylchoedd naturiol cyfoethog.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ac yn cyfathrebu'n effeithiol. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu medrau Saesneg disgyblion o oedran cynnar yn golygu bod y rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn frwdfrydig ac yn hyderus am eu dysgu. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu syniadau'n effeithiol.

Mae ethos Cymreig cryf a defnydd rheolaidd oedolion o'r Gymraeg yn helpu disgyblion i ddeall ei bod yn iaith fyw ac yn eu hannog i siarad Cymraeg eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio technegau addas, yn cynnwys drilio, holi ac arwyddo, i helpu disgyblion i feithrin ystod o eirfa a phatrymau brawddegau sy'n eu galluogi i siarad â hyder cynyddol.

Mae dull ffocysedig yr ysgol o addysgu darllen yn helpu datblygu darllenwyr medrus a rhugl dros gyfnod. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn darllen ag eglurder a mynegiant. Mae llawer ohonynt yn mynd i'r afael â geirfa anodd yn hyderus ac yn cyfrannu'n ystyriol at drafodaethau am lyfrau.

### Ciplun – mae llyfrgell yr ysgol wedi'i harwain gan ddisgyblion yn hyrwyddo diwylliant darllen

Yn rhan o'u hymrwymiad i hyrwyddo darllen er pleser, mae arweinwyr a staff wedi datblygu llyfrgell ysgol groesawgar y mae disgyblion a theuluoedd yn ei defnyddio'n rheolaidd. Yn dilyn hyfforddiant, mae disgyblion o grŵp llyfrgellwyr Senedd yr ysgol yn rheoli system y llyfrgell ar-lein ac yn cefnogi gwaith cynnal y llyfrgell. Mae disgyblion yn ymweld â'r llyfrgell amser cinio ac ar ôl yr ysgol i newid llyfrau, archwilio testunau newydd neu fwynhau'r amgylchedd digynnwrf. Mae disgyblion sy'n defnyddio'r llyfrgell yn ymgysylltu â llyfrau yn rhwydd ac yn mwynhau profiad y llyfrgell. Mae'r diwylliant darllen cadarnhaol hwn yn dechrau gwella hyder a chynnydd disgyblion mewn darllen.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn deall diben ysgrifennu ac yn meithrin ystod o fedrau ysgrifennu defnyddiol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu’n hyderus ar draws ystod o genres ac yn ysgrifennu’n estynedig â medr cynyddol mewn cyd-destunau addas. Mae arweinwyr wedi nodi bod angen sicrhau cynnydd mwy sefydlog yn datblygu ysgrifennu estynedig disgyblion wrth iddynt symud o un dosbarth i’r llall.

Mae cwricwlwm mathemateg yr ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau’n gynyddol. Mae addysgu â ffocws yn helpu disgyblion i feithrin ystod o strategaethau i gryfhau eu rhuglder, eu cywirdeb a’u hyder wrth drin a thrafod rhifau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio dulliau cyfrif ysgrifenedig yn hyderus ac mae mwyafrif ohonynt yn esbonio’u rhesymu. Mae staff yn dechrau ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso’u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu ystod dda o fedrau digidol. Mae disgyblion iau yn amgyffred algorithmau syml ac yn dilyn cyfarwyddiadau i reoli dyfeisiau digidol. Mae disgyblion hŷn yn cydweithio i greu cynnwys digidol, yn defnyddio rhaglenni codio ac offer digidol yn fedrus i reoli dyfeisiau, ac yn cynhyrchu podlediadau a sgriptiau gan ddefnyddio sbardunau deallusrwydd artiffisial (AI).

Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol a’u medrau motor manwl yn ddychmygus. Mae disgyblion iau yn elwa ar brofiadau ymarferol, yn cynnwys modelu clai a pheintio ar raddfa fawr yn yr awyr agored. Mae disgyblion hŷn, wedi eu hysbrydoli gan arlunwyr enwog, yn arbrofi â chyfryngau a thechnegau amrywiol i greu eu celf eu hunain. Mae digonedd o chwarae mawr yn yr awyr agored yn sicrhau bod disgyblion yn symud bob dydd ac yn dysgu rheoli eu symudiadau.

Mae uwch arweinwyr yn cydweithio i gynnal diwylliant sy’n canolbwyntio ar les a chynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn annog staff i fyfyrio ar bob un o feysydd gwaith yr ysgol. Nid ydynt yn ofni newid cyfeiriad os ydynt yn nodi agweddau nad ydynt yn gweithio’n ddigon da. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i wneud penderfyniadau amserol sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr ymroddgar a brwd i lawer o agweddau ar waith yr ysgol. Maent yn gwneud defnydd priodol o’r wybodaeth a gânt gan y pennaeth, staff a disgyblion i’w helpu yn eu rôl fel ffrind beirniadol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu cylch monitro cynhwysfawr sy’n sicrhau eu bod yn gwerthuso cynnydd blaenoriaethau gwelliant ysgol yn rheolaidd. Mae gwerthusiadau o weithgareddau monitro yn drylwyr ac yn nodi cryfderau a meysydd i’w gwella ymhellach. Mae dysgu proffesiynol yn cysylltu’n agos â gwelliannau. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae wedi canolbwyntio ar feithrin capasiti arwain, gwella addysgu, a chreu darpariaeth cwricwlwm sy’n berthnasol ac yn gyffrous. Mae hyn wedi cyfrannu at sefydlu tîm

arweinyddiaeth effeithiol, mwy o gysondeb yn ansawdd yr addysgu a chwricwlwm perthnasol ac ymatebol.

Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid grant yn ystyriol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion targedig. Mae hyn yn cynnwys darparu ymyriadau a sicrhau cyfleoedd i ymestyn dysgu ar gyfer disgyblion, yn cynnwys cefnogi profiadau preswyl. Mae pwyslais cryf ar sefydlu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol â rhieni wedi gwella presenoldeb ac ymddygiad, ac yn sicrhau bod mentrau fel ‘Big Bocs Bwyd’ a ‘Preloved’ yn cyfrannu’n sylweddol at leihau annhegwch yn y gymuned. Mae cydweithio effeithiol ag ysgolion partner a’r gymuned ehangach yn ymestyn cyfleoedd y cwricwlwm ac yn galluogi staff i rannu arfer dda o fewn yr awdurdod lleol, a thu hwnt.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio’r grant datblygu disgyblion. Fodd bynnag, mae diffyg mawr yng nghyllideb yr ysgol. Mae hyn wedi cael ei drwyddedu gan yr awdurdod lleol, ac mae’r ddwy ochr wedi cytuno ar gynllun adfer.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026